



Cyflawni'r Potensial

**Adroddiad Seminar
22 Mehefin 2021**

CYDNABYDDIAETHAU

Hoffai'r trefnwyr ddiolch i'r siaradwyr, y mynychwyr a'r sefydliadau a wnaeth y seminar hon yn bosibl. Yn benodol, hoffem ddiolch i Four Cymru, Menter Môn, PLANED, Antur Cymru a Cadwyn Clwyd am eu cefnogaeth wrth gynllunio a chyflwyno'r digwyddiad.

CWMPAWD GWLEDIG CYMRU

Tyfodd Cwmpawd Gwledig Cymru o rwydwaith o unigolion ac asiantaethau menter annibynnol sydd â hanes hir o weithio yng nghefn gwlad Cymru.

Fel rhan o brosiect [Arsyllfa](#), cefnogodd Four Cymru, asiantaeth gyfathrebu ddwyieithog flaenllaw, y gwaith o hwyluso digwyddiadau, cyfarfodydd a chyfathrebu ehangach trwy gydol y camau cychwynnol.

Yn 2019 cynhaliodd y rhwydwaith seminar yng Ngharno, Sir Drefaldwyn gyda'r nod o dynnu sylw at botensial economaidd Cymru wledig ac effaith datblygu dan arweiniad y gymuned trwy raglenni fel LEADER. Cyhoeddodd y rhwydwaith bapur o'r enw "Tyfu'r Potensial"

Cynhyrchwyd ail bapur cyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, o'r enw, "Manteisio ar y Potensial"

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cyflwyniadau a thrafodaethau a gynhaliwyd ar Fehefin 22 2021. Teitl y seminar oedd "Cyflawni'r Potensial".

CEFNDIR

Wrth i Lywodraeth newydd Cymru ddechrau gweithio ar yr adferiad cenedlaethol ar ôl pandemig Covid-19, mae'r seminar hon yn gofyn, sut y bydd yn cyflawni ar gyfer cefn gwlad Cymru?

Dynodir naw ardal cyngor fel ardaloedd gwledig. Gyda'i gilydd maen nhw'n gartref i dros draean o boblogaeth Cymru gyda llawer mwy mewn pocedi gwledig mewn ardaloedd cyngorau eraill. Mae'r naw cyngor gwledig yn cwmpasu ardal o dros 80% o dirfas Cymru.

Mae Gweledigaeth Wledig CLILC a'r Adroddiad Tystiolaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi'r heriau i gefn gwlad Cymru, y mae llawer ohonyn nhw wedi ffurfio asgwrn cefn polisi datblygu gwledig dros nifer o flynyddoedd. Ar ôl Covid-19 ac ar ôl Brexit mae heriau newydd i'w hwynebu ond mae'r ymateb ar gyfer Cymru wledig yn dameidiog rhwng strwythurau rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg fel Cydbwyllgorau Corfforedig, a mecanweithiau cyflenwi fel Bargeinion Dinas a Thwf.

Bydd y seminar yn ymdrin â'r cwestiynau canlynol a mwy:

- Sut y gellir cefnogi gweledigaeth integredig gydlynol ar gyfer cefn gwlad Cymru wrth symud ymlaen?
- Sut y byddwn yn adeiladu ar wersi LEADER i feithrin mecanweithiau cyflwyno amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar le ac yn canolbwyntio ar y gymuned?
- Sut ydyn ni'n meithrin ac yn cefnogi arloesedd dan arweiniad lleol sydd wedi'i wreiddio mewn cymunedau lleol?

SIARADWYR

Yr Athro Michael Woods, Prifysgol Aberystwyth

Yn y cyflwyniad cyntaf, crynhodd yr Athro Michael Woods o Brifysgol Aberystwyth rai o'r heriau a'r cyfleoedd i gefn gwlad Cymru ac amlinellu modelau llywodraethu posibl ar gyfer sicrhau bod materion gwledig yn cael eu targedu'n briodol mewn rhaglenni ôl-Brexit. Roedd ymchwil ym mhrosiect ROBUST wedi datgelu sut mae Brexit a COVID-19 wedi dwysáu anghydraddoldebau a gwendidau strwythurol yng nghefn gwlad Cymru, a llywio blaenoriaethau yn y Weledigaeth Wledig newydd ar gyfer Cymru, a gynhyrchwyd gyda'r CLILC. Fodd bynnag, cwestiynodd Michael a oedd y mecanweithiau priodol ar waith i gyflawni'r dyheadau hyn. Nododd fod ansicrwydd ynghylch rhaglenni ôl-Brexit Llywodraeth y DU a Chymru wedi rhwystro cynllunio a bod adfachu ymddangosiadol pwerau gan Whitehall yn cyfyngu ar allu Cymru i ddatblygu ei hymatebion ei hun i heriau nodedig mewn datblygu gwledig.

Roedd seilos parhaus yn Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at bwyslais deul ar reoli tir yn gynaliadwy ac ar fuddsoddiad rhanbarthol, gyda'r risg y gallai datblygu gwledig sy'n canolbwyntio ar bobl ddiflannu i'r bwlch rhwng y rhain. Yn benodol, gallai adnoddau ar gyfer datblygu lleol dan arweiniad y gymuned yng nghefn gwlad Cymru gael eu gwasgu os yw cymunedau gwledig yn cael eu gorfodi i gystadlu â chymunedau trefol am gyllid. Yn hynny o beth, dadleuodd Michael fod angen cynrychiolaeth glir o fuddiannau gwledig wrth ddarparu polisi ôl-Brexit yng Nghymru a chydlynu ymyriadau datblygu gwledig.

Nododd bum dull posibl (heb fod yn annibynnol ar ei gilydd) gan gynnwys llif cyllido gwledig (yn ehangach na'r Cynllun Datblygu Gwledig blaenorol), asiantaeth datblygu gwledig (fel cyd-bwyllgor corfforaethol), comisiynydd gwledig, cyngor polisi gwledig a senedd wledig.

Wynfford James, Cyfarwyddwr Sgema Cyf

Roedd cyflwyniad Wynfford yn canolbwyntio ar dynnu sylw at y negeseuon allweddol o'i bapur ar 'Y Lle ar gyfer Arloesi: Antur Teifi LEADER I a II.' Esboniodd mai ei fwriad yn y papur oedd ystyried sut y cafodd rhaglen LEADER yn Nyffrynnoedd Teifi ac Aeron yng ngorllewin Cymru yn y nawdegau ei chydlynu a'i chyflwyno. Roedd hefyd eisiau ystyried pa effaith roedd y rhaglen wedi'i chael, a beth ellid ei ddysgu o'r profiad a allai fod yn werthfawr ar gyfer gweithredoedd yng nghefn gwlad Cymru yn y dyfodol.

Esboniodd ei fod yn dymuno nid yn unig ystyried prosiectau unigol ond hefyd edrych ar y cyd-destun y digwyddodd y datblygiad ynddo a phwy oedd y prif chwaraewyr a'r ymgysylltiad ag awdurdodau lleol a strwythurau'r wladwriaeth.

Daeth Antur Teifi yn brif chwaraewr wrth gyflwyno LEADER I a II. Sefydliad a oedd wedi dod yn asiantaeth Fenter brif ffrwd erbyn y nawdegau o'i ddyddiau cynharach fel menter gymunedol. Roedd yn sefydliad oedd yn gweithio yn y gofod rhwng y wladwriaeth, awdurdodau lleol a'r gymuned.

Amlinellodd brif edafedd rhaglen LEADER I a sut esblygodd ymgysylltu â'r gymuned a'i wahaniaethu oddi wrth ymgynghori ffurfiol. Dilynodd LEADER II o'i lwyddiant ac fe'i harweiniwyd gan Ganolfan Arloesi Wledig a oedd yn ymgorffori cyfleuster Telematig. Nid oedd yr holl ymyriadau'n llwyddiannus ond daeth llawer yn gatalyddion ar gyfer rhaglenni prif ffrwd yn ddiweddarach gan Asiantaethau'r Llywodraeth.

Beth oedd i'w ddysgu o'r profiad hwn? Tynnodd ar fethodoleg LEADER a dadleuodd fod angen adnewyddu ac ail-fywiogi prif nodweddion y dull. Wrth wneud hynny, byddai'n darparu mecanweithiau a strwythurau cyflenwi a fyddai'n creu'r lle ar gyfer arloesi i wasanaethu anghenion pobl, busnesau a chymuned wledig Cymru ar gyfer y dyfodol.

Jon Parker, Prif Weithredwr, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

Dechreuodd Jon ei gyflwyniad trwy adrodd ar arolwg diweddar o aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau o YDCW a dderbyniodd dros 500 o ymatebion ar-lein a thrwy'r post. Ymhlith pethau eraill, gofynnodd yr arolwg beth sy'n bwysig i gymunedau gwledig a beth sy'n bwysig i genedlaethau'r dyfodol. Nid yw'n syndod efallai mai llygredd aer, afonydd, amgylcheddau tir a môr, dirywiad natur a newid hinsawdd oedd y prif bryderon. Roedd lleoedd agored, tirwedd a chefn gwlad a'n heconomi wledig a'n ffordd o fyw yn cael eu hystyried yn bwysig ar

gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn fwy rhyfeddol efallai, ystyriwyd bod byw'n gynaliadwy (a gwneud dewisiadau i wneud hynny) a sut y bydd newidiadau mewn amaethyddiaeth yn effeithio ar gymunedau gwledig yn llai pwysig, ond gall hyn fod oherwydd ansicrwydd a dealltwriaeth o bolisiau a chyfeiriad.

Ymhlith y pethau allweddol a nodwyd o'r arolwg roedd gofyn am wybodaeth am faterion a phryderon gwledig rhanbarthol lleol, tensiynau gwthio/tynnu datblygiadau fel ynni adnewyddadwy ac eto nid yw'n syndod efallai, cefnogir economi wledig. Y casgliad y dylid dod iddo yw bod angen cael sgysiau ystyrllon â chymunedau gwledig ynglŷn â'r rhain, yn enwedig lle mae cymunedau wedi'u rhannu ar faterion.

Gofynnodd Jon a yw'n bryd myfyrio ar yr hyn sydd yn/nad yw wedi gweithio ym maes datblygu cymunedol yng nghefn gwlad Cymru a defnyddio hwn fel man cychwyn ar gyfer gweithgaredd yn y dyfodol. Gofynnodd y cwestiwn ynghylch sut rydym ni'n estyn allan at bawb, gwneud trafodaethau'n hygyrch, gan ddefnyddio terminoleg ac iaith briodol.

Defnyddiodd Jon y sector pysgota a'i gymunedau fel astudiaeth achos. Mae'r sector wedi'i leoli'n bennaf yng nghefn gwlad Cymru ac mae iddo arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol i Gymru. Mae'r ymgysylltiad wedi'i leihau i ymgynghori ar ddefnyddio adnoddau. Mae hyn yn erbyn rhai heriau amlwg i'r diwydiant pysgota. Y cwestiwn allweddol yw sut rydym ni'n gweithio tuag at bysgodfeydd gwirioneddol gynaliadwy. Rhaid i hyn gynnwys symud allan o seilos sectoraidd ac estyn allan i'r gymuned bysgota sydd weithiau'n anodd ei chyrraedd.

Mae mecanweithiau ymgysylltu yn allweddol. Gorffennodd Jon trwy fyfyrion ar y rhyng-gysylltiadau rhwng dinasoedd bywiog a goroesiad cymunedau gwledig ac anogodd bobl i fod yn ddewr a radical.

Endaf Griffiths, Cyfarwyddwr Wavehill

Myfyriodd Endaf ar 15 mlynedd o werthuso prosiectau a rhaglenni datblygu gwledig yng Nghymru. Treuliodd beth amser yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth yn edrych ar hen ddogfennau 'Strategaeth Cymru Wledig'. Bu ambell un, gan gynnwys 'Strategaeth ar gyfer Cymru Wledig' a ysgrifennwyd gan Gyngor Cymru 50 mlynedd yn ôl, ym 1971.

Wrth ddarllen trwy'r dogfennau hyn, canfu fod llawer o'r un materion rydym ni'n eu trafod heddiw yn cael eu trafod yn ôl ym 1971 ac eto trwy

gydol y 1990au. Yn fwyaf nodedig, mae'r holl ddogfennau'n sôn am yr angen i fynd i'r afael â phobl ifanc yn allfudo o gymunedau gwledig a'r angen i arallgyfeirio'r economi wledig. Felly, ar y sail honno, beth sydd wedi newid? Beth a gyflawnwyd gan y biliynau a wariwyd dros y blynyddoedd ar brosiectau a rhaglenni datblygu gwledig? Oni ddylem ni fod wedi mynd i'r afael â'r materion hyn erbyn hyn?

Galwodd Endaf am fwy o herio a chwestiynu'r rhaglenni, y cynlluniau a'r prosiectau sy'n cael eu cyflwyno yn enw 'datblygu gwledig'. Ydyn ni'n dysgu nid yn unig o'r pethau sy'n gweithio ond hefyd y pethau na weithiodd, yn enwedig y mentrau arloesol hynny?

Os na wnawn ni, nid ydym ni'n mynd i ddysgu o'r 'methiannau' hynny ac rydym ni mewn perygl o wneud yr un pethau eto. Ydyn ni'n deall yn llawn y problemau sy'n wynebu Cymru wledig ac, os na, sut allwch chi eu datrys?

Cyflwynodd Endaf dri phrif fyfyrddod. Yn gyntaf bod brys i ddatblygu syniadau prosiect ac i weithredu yn hytrach na chasglu gwybodaeth, penderfynu achos y mater a nodi ystod o atebion posibl. Yn ail, ni threulir digon o amser yn adolygu'r hyn a gyflawnwyd ac (yn bwysig) rhannu canfyddiadau'r adolygiadau hynny ag eraill. Yn drydydd, prif fyfyrddod Endaf oedd bod prosiectau yn ymwneud yn sylfaenol â phobl a'r lleoedd a'r cymunedau y maen nhw'n dod ohonyn nhw. Yn amlach na pheidio, mae unigolyn ymroddedig a llawn cymhelliant y tu ôl i brosiect llwyddiannus neu fusnes llwyddiannus. At hynny, mae lle neu gymuned yn aml yn allweddol i gymhelliant yr unigolyn hwnnw. Felly, dod o hyd i'r unigolion hynny ac ymgysylltu â nhw yw y ffactor hanfodol.

Yr Athro Kevin Morgan, Prifysgol Caerdydd

Yn y cyflwyniad olaf, siaradodd yr Athro Kevin Morgan am strwythurau a strategaethau llywodraethu sy'n dod i'r amlwg. Aeth ei gyflwyniad i'r afael â thri mater - y cwestiwn gwledig, y systemau llywodraethu newydd yng Nghymru ac yn olaf yr heriau sy'n deillio o'r canologiaeth newydd sy'n cael ei dilyn gan San Steffan.

Mae'r cwestiwn gwledig wedi bod yn cael ei ddiystyru ers chwarter canrif, nid yn unig yng Nghymru ond ar draws gwledydd Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Mae wedi diflannu oddi ar yr agenda wleidyddol ddifrifol oherwydd twf dinasoedd-ranbarthau, wedi'i yrru gan y cysyniad o "gydgrynhoad". Mae cydgrynhoad yn cynhyrchu buddion economaidd o dan rai amodau, gan fod cydberthynas real iawn rhwng cynhyrchiant, arloesedd a dwysedd y

boblogaeth. Ond mae'r cysyniad hwn wedi newid i mewn i ideoleg o'r hyn a alwodd Kevin yn "fetroffilia" sy'n clodfori buddion trefoli wrth fychanu ei gostau. Ar ôl y pandemig gall hyn newid gyda mwy o ymwybyddiaeth o les a dealltwriaeth ehangach o ddatblygiad sy'n mynd y tu hwnt i fetrig cul cynnyrch domestig gros y pen.

O ran systemau llywodraethu newydd, mae angen i ni gydnabod bod dau fodel datganoli bellach yn bodoli yng Nghymru. Y cyntaf yw'r model datganoli *enedlaethol* o Lundain i Gymru, a'r ail yw'r model datganoli *is-genedlaethol* yng Nghymru. Sbardunwyd y model is-genedlaethol hwn trwy greu bargeinion Dinas a Thwf a'r model datblygu rhanbarthol, a oedd yn cynnwys pedwar rhanbarth datblygu newydd Cymru. Y rhanbarth mwyaf datblygedig yw Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a all fod ag asiantaeth ddatblygu ranbarthol ei hun cyn bo hir, a gallai hyn ddigwydd yn y rhanbarthau eraill. Sut bydd y ddau fodel o ddatganoli yn tynnu ymlaen gyda'i gilydd? Mae Cyd-bwyllgorau Corfforaethol newydd yn cael eu ffurfio ym mhob un o'r pedwar rhanbarth ac mae'r strwythurau newydd hyn yn wynebu heriau mawr, gan gynnwys eu gallu i gyflawni eu mandad, eu cyfansoddiad a'u gallu i gydweithio â'i gilydd a chyda Llywodraeth Cymru. Strwythurau llywodraeth leol yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y bôn, ond mae angen i bartneriaid eraill gymryd rhan oherwydd bod datblygu rhanbarthol yn broses aml-randdeiliad. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ail-lunio ei pherthynas â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn a'u trin fel partneriaid go iawn nid asiantau cyflenwi lefel isel.

Y trydydd mater yw'r canologiaeth newydd sydd wedi'i gynhyrchu gan "undebaeth gyhyrol" llywodraeth y DU o dan Boris Johnson. Mae cronfeydd "lefelu i fyny" y DU yn mynd yn groes i'r arfer da rydym ni wedi'i ddatblygu gyda'r Cronfeydd Strwythurol ac yn ein plymio'n ôl i rai o nodweddion gwaeth y gorffennol - fel llinellau amser tynn, cystadleuaeth rhwng awdurdodau lleol a gweithio ynysig.

O'i rhan mae Llywodraeth Cymru wedi'i dal mewn lle lletchwith. Os bydd yn protestio gallai golli adnoddau; ond os yw'n ymgysylltu'n anfeirniadol, mae'n colli wyneb. Serch hynny, mae angen mabwysiadu dull pragmatig sy'n seiliedig ar hunan-les goleuedig ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos polisi datblygu gwledig. Er mwyn cyflawni'r sylfaen adnoddau i wynebu heriau yn y dyfodol, bydd angen i bolisi datblygu gwledig fynd lle mae'r ffrydiau cyllido - yng Nghymru, y DU ac Ewrop. Dim ond trwy symud ac integreiddio'r holl ffrydiau cyllid y byddwn yn gallu dod â'r cwestiwn gwledig o'r ymylon i'r brif ffrwd.

TRAFODAETH

Dechreuodd y drafodaeth trwy ystyried rhai o'r strwythurau a godwyd yng nghyflwyniad Michael Woods. Daw'r syniad gan gyngor polisi gwledig o fodel o'r Ffindir a gallai fod yn fecanwaith ar gyfer cefnogi arweinyddiaeth wledig gydlynol sy'n gallu dylanwadu ar lywodraethau a chefnogi gweithredu ar lawr gwlad. Mae angen strwythurau arnom ni a fydd yn manteisio ar synergeddau rhwng yr hyn sy'n dod allan o Gaerdydd a Llundain, waeth beth fo'r gwahaniaethau gwleidyddol. Mae angen mecanwaith sy'n gweithio trwy heriau datblygu gwledig, yn ymchwilio iddyn nhw ac yn llunio cynllun cydlynol. Mae angen iddo fod yn fecanwaith ar gyfer gweithio ar draws seilos sy'n cyd-fynd â gwahanol agendâu gan gynnwys newid hinsawdd, cyfiawnder cymdeithasol a'r agenda ddigidol.

Mae seneddau gwledig yn fodel ar gyfer cefnogi llais cymunedol. Maen nhw'n strwythurau sy'n cefnogi sefydliadau llawr gwlad i ddod at ei gilydd i dynnu sylw at faterion a mynd â'u pryderon at y llywodraeth. Rydym ni'n ffodus iawn yng Nghymru i gael Tom Jones sydd newydd ei ethol i Gynghrair Cymuned Wledig Ewrop, un o drefnwyr sefydlu Senedd Wledig Ewrop. Yn ddiweddar, gwnaeth Tom gyflwyniad i Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop gan ddadlau dros bartneriaethau teg rhwng gwledig a threfol. Mae dymameg ardaloedd gwledig yn newid a bydd angen dod â gwahanol safbwyntiau o fannau gwledig ynghyd a datrys gwrthdaro hefyd, o bosib.

Roedd siom nad oedd y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys dadansoddiad o anghenion cefn gwlad Cymru a thargedau i ddiwallu'r anghenion hyn. Gofynnodd pobl, a fydd rhaglenni y tu allan i'r targedau seilo a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion trawsbynciol cefn gwlad Cymru?

Mae diffyg dealltwriaeth gyffredinol o hyd am yr hyn y mae LEADER wedi'i gyflawni. Gall hyn fod oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn ychwanegiad. Efallai ei fod oherwydd nad yw mentrau llwyddiannus yn cydnabod y mewnbwn bach gan LEADER sy'n rhoi cychwyn ar bethau. Mae llawer o bobl a oedd yn ymwneud â LEADER bellach wedi symud ymlaen i lefelau uwch. Mae'r dysgu gan LEADER yn mynd gyda nhw.

Efallai na fydd amserlenni gwerthuso yn cofnodi cefnogaeth gynnar ar raddfa fach. Nid yw'r daith LEADER bob amser yn llinol, mae ganddi lawer o droeon trwstan ond mae'r daith yn un sydd wedi'i hwyluso ac mae angen cyllido'r hwyluso hwn. Ni chydabyddir hyblygrwydd i

wneud y mwyaf o'r potensial bob amser. Daw llwyddiant o gefnogi'r bobl iawn a darparu adnoddau i ddilyn llwybr sydd weithiau'n anrhagweladwy. Mae LEADER wedi'i brif ffrydio ac felly'n cael ei reoli'n fwy. Mae wedi symud i ffwrdd o gael ei reoli gan y gymuned ac felly'n llai dynamig.

Y tu hwnt i LEADER mae'n bwysig cydnabod y ffactorau llwyddiant y tu ôl i ddatblygiad llwyddiannus a arweinir gan y gymuned. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ddod â sectorau a diddordebau ynghyd mewn gofod lleol. Ymddengys nad oes eglurder wrth symud ymlaen o ran sut y bydd hyn yn cael ei hwyluso.

Teimlai pobl nad yw'r dysgu cyfoethog am ddatblygiad a arweinir gan y gymuned wedi cael ei rannu a'i weithredu cymaint ag y gallai fod. Mae'r dystiolaeth a'r straeon yno ond ni weithredwyd arny'n nhw. Teimlai rhai fod rhai gwersi wedi'u hymgorffori yn nhrefn y rhaglenni ond nid oedden nhw wedi cael eu cario tuag at y ffordd yr oedd rhaglenni sy'n canolbwyntio ar y gymuned wedi'u rhoi ar waith.

Casglwyd llawer iawn o arbenigedd yn y seminar a rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o adeiladu arno. Mae Rhwydwaith Gwledig Iwerddon yn enghraifft wych o ofod dynamig sy'n wynebu'r cyhoedd i rannu arbenigedd. Yn wahanol i Gymru, mae'n annibynnol o'r llywodraeth ac mae ganddo broffil llawer uwch.

Rhaid casglu dysgu o bethau sydd wedi methu. Mae temtasiwn i anghofio am bethau os nad ydyn nhw'n llwyddo ond mae'r dysgu'n bwysig fel nad yw'r un camgymeriadau'n cael eu gwneud. Mae arloesi yn cynnwys profi pethau a chaniatáu i rai pethau fethu.

Mae'r dysgu gan Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd hefyd yn bwysig yn enwedig o ran sut i gefnogi cymuned sy'n anodd ymgysylltu â hi, sy'n brin o amser ac sydd â phatrymau gwaith heriol.

Gallai seminarau fel hon fod yn rhan o blatfform sy'n caniatáu i bobl feddwl, siarad ac archwilio heriau ardaloedd gwledig. Y tu hwnt i hyn, rhaid darparu adnoddau ar gyfer datblygu a darparu lleol gyda lle wedi'i ymgorffori i arloesi, profi ac ymateb yn hyblyg i botensial pobl heb gael eu gyrru gan dargedau a grewyd yn ganolog. Mae natur amlochrog datblygiad lleol yn dod â llawer o gysylltiadau a gall y cysylltiadau hynny sbarduno arloesedd.

Yn y cyfamser rydym ni mewn perygl o golli arbenigedd a sgiliau gwerthfawr. Sut ydyn ni'n mynd i bontio'r bwlch os nad oes rhaglen olynol yn cael ei dylunio?

Mae angen adolygu etifeddiaeth LEADER ac ailedrych ar y fethodoleg er mwyn creu gofod dynamig newydd wedi'i seilio ar le ar gyfer arloesi.

CASGLIAD

Trafododd y seminar sut i gyflawni potensial Cymru wledig gyda ffocws penodol ar arloesi a arweinir gan y gymuned. Roedd pobl yn teimlo bod y targedau ar gyfer datblygu gwledig fel y'u nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu newydd yn siomedig gyda mwy o bwyslais ar raglenni trawsadrannol a oedd yn darparu dull integredig.

Mae datblygiad lleol yng nghefn gwlad Cymru mewn perygl o gael ei wasgu a'i golli rhwng y ffocws deuol ar reoli tir yn gynaliadwy a datblygu rhanbarthol.

Nid yw gwersi profiad cyfoethog Cymru o ddatblygiad lleol a arweinir gan y gymuned wedi cael eu gweithredu hyd at roi'r rhaglenni gwledig mwyaf diweddar ar waith, yn enwedig yr iteriad diweddaraf o LEADER.

Mae angen lle i arloesi ar lefel gymunedol i anadlu, i brofi syniadau newydd ac i arbrofi. Bydd mentrau arloesol sydd â'r potensial i gael yr effaith fwyaf yn profi sawl tro trwstan cyn iddyn nhw gyflawni. Ni fyddan nhw'n tyfu o weithgaredd rhagnodedig o fewn diwylliant a arweinir gan grantiau. Mae'r gofod hwn yn ofod wedi'i hwyluso. Mae angen cyllid ynddo'i hun fel proses ac mae angen iddo fod â'r gallu i ddod ag adnoddau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector ynghyd ar lefel leol.

Teimlai'r seminar fod angen i ni ailedrych ar y dysgu cyfoethog sydd ar gael gan Gymru wledig, yn enwedig o iteriadau cynnar LEADER.